Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru
Her Majesty's Inspectorate for Education and Training in Wales

# Adroddiad ar

# Cylch Meithrin Drefach Felindre
Neuadd Y Ddraig Goch
Drefach Felindre
Llandysul
SA44 5UG

**Dyddiad yr arolygiad: Chwefror 2016**

**gan**

**Dorothy Morris**
**Arolygydd Cofnodol**

**ar ran**

**Estyn, Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru**

Yn ystod pob arolygiad, nod arolygwyr yw ateb tri chwestiwn allweddol:

**Cwestiwn Allweddol 1: Pa mor dda yw'r deilliannau?**
**Cwestiwn Allweddol 2: Pa mor dda yw'r ddarpariaeth?**
**Cwestiwn Allweddol 3: Pa mor dda yw'r arweinyddiaeth a'r rheolaeth?**

Mae arolygwyr hefyd yn rhoi barn gyffredinol ar berfformiad presennol y lleoliad a'i ragolygon gwella.

Yn yr arfarniadau hyn, mae'r arolygwyr yn defnyddio graddfa bedwar pwynt:

| **Barn** | **Yr hyn mae'r farn yn ei olygu** |
|---|---|
| **Rhagorol** | Llawer o gryfderau, gan gynnwys enghreifftiau arwyddocaol o arfer sy'n arwain y sector |
| **Da** | Llawer o gryfderau a dim meysydd pwysig sydd angen eu gwella'n sylweddol |
| **Digonol** | Mae cryfderau'n gorbwyso'r meysydd i'w gwella |
| **Anfoddhaol** | Mae'r meysydd pwysig i'w gwella yn gorbwyso'r cryfderau |

Cymerwyd pob rhagofal posibl i sicrhau bod y wybodaeth yn y ddogfen hon yn gywir adeg ei chyhoeddi. Dylid cyfeirio unrhyw ymholiadau neu sylwadau ynglŷn â'r ddogfen hon/cyhoeddiad hwn at:

Yr Adran Gyhoeddiadau
Estyn
Llys Angor, Heol Keen
Caerdydd
CF24 5JW neu drwy anfon e-bost at cyhoeddiadau@estyn.llyw.cymru

Mae'r cyhoeddiad hwn a chyhoeddiadau eraill gan Estyn ar gael ar ein gwefan: www.estyn.llyw.cymru

**© Argraffydd y Frenhines a Rheolwr Llyfrfa Ei Mawrhydi 2016: Gellir ailddefnyddio'r adroddiad hwn yn ddi-dâl mewn unrhyw fformat neu gyfrwng ar yr amod y caiff ei ailddefnyddio'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol. Rhaid cydnabod hawlfraint y deunydd rhagddywededig a rhaid nodi teitl yr adroddiad penodol.**

**Dyddiad cyhoeddi: 07/04/2016**

## Cyd-destun

Mae Cylch Meithrin Drefach Felindre yn cyfarfod yn Neuadd y Ddraig Goch ym mhentref gwledig Drefach Felindre ger Castell Newydd Emlyn, sir Gaerfyrddin. Mae'r lleoliad ar agor am bum bore'r wythnos yn ystod tymor yr ysgol.

Mae'r lleoliad wedi'i gofrestru i gymryd hyd at 16 o blant fesul sesiwn. Ar hyn o bryd, mae 18 o blant dwy a thair oed ar y gofrestr, gydag wyth yn cael addysg y blynyddoedd cynnar wedi'i hariannu. Saesneg yw prif iaith y cartref i tua hanner y plant. Nid yw'r lleoliad wedi adnabod plant ag anghenion dysgu ychwanegol o fewn y garfan bresennol.

Mae tri aelod o staff, yn cynnwys arweinydd ac arweinydd cynorthwyol llawn amser a chymhorthydd sydd ar gytundeb rhan amser. Mae'r holl staff yn brofiadol ac yn meddu ar gymwysterau addas ym maes addysg a gofal plant bach. Mae'r arweinydd wedi bod yn ei swydd ers 1994.

Arolygwyd y feithrinfa ddiwethaf gan Arolygiaeth Gofal a Gwasanaethau Cymdeithasol Cymru (AGGCC) yn Hydref 2014 a chan Estyn ym Mehefin 2010.

## Crynodeb

| Perfformiad presennol y lleoliad | Digonol |
|---|---|
| Rhagolygon gwella'r lleoliad | Digonol |

### Perfformiad presennol

Mae gan y lleoliad gryfderau sy'n gorbwyso meysydd i'w gwella oherwydd:

- Mae'r mwyafrif o'r plant yn gwneud cynnydd priodol o'u man cychwyn
- Mae'r rhan fwyaf o'r plant yn gwneud defnydd effeithiol o'u medrau creadigol
- Mae gan y mwyafrif o'r plant agweddau cadarnhaol tuag at ddysgu ac maent yn ymddwyn yn dda
- Mae'r plant yn hapus yn y lleoliad ac yn teimlo'n ddiogel mewn awyrgylch gynnes
- Mae'r staff yn darparu gweithgareddau diddorol i'r plant
- Mae'r berthynas rhwng y staff a'r plant yn dda

Er hyn:

- Nid yw medrau technoleg gwybodaeth a chyfathrebu (TGCh) y plant wedi datblygu ddigon
- Mae datblygiad medrau llythrennedd a rhifedd y mwyafrif o'r plant yn anwastad
- Nid yw'r cynllunio yn sicrhau bod medrau'r plant yn cael eu datblygu'n systematig ar draws y meysydd dysgu
- Nid yw medrau'r plant, yn arbennig y plant mwy abl, yn cael eu hymestyn yn gyson

### Rhagolygon gwella

Mae gan y lleoliad gryfderau sy'n gorbwyso meysydd i'w gwella oherwydd:

- Mae'r arweinydd yn ymgymryd â'i rôl yn gydwybodol
- Mae'r staff yn weithgar ac yn ymrwymedig i ddatblygiad a lles y plant
- Mae'r staff yn ymateb yn gadarnhaol i gyngor sy'n hybu gwelliannau mewn agweddau ar y ddarpariaeth
- Mae'r cynllun datblygu yn cynnwys meysydd addas i dderbyn sylw
- Mae defnydd effeithiol o grantiau i sicrhau adnoddau ychwanegol

Er hyn:

- Nid yw hunan arfarnu yn rhoi digon o sylw i fonitro effeithiolrwydd yr addysgu a'r dysgu
- Nid yw rôl strategol y pwyllgor rheoli wedi'i sefydlu'n llawn
- Mae gweithredu'r cynllun datblygu yn ei gyfnod cynnar
- Mae'r cynnydd wrth fynd i'r afael ag argymhellion yr arolygiad blaenorol yn araf

## Argymhellion

A1 Gwella medrau TGCh y plant ac ymestyn eu medrau llythrennedd a mathemategol

A2 Cryfhau'r cynllunio i ddatblygu medrau'r plant yn systematig ar draws y meysydd dysgu

A3 Gwneud mwy o ddefnydd o wybodaeth asesu i gynllunio gweithgareddau sydd yn ymestyn dysgu'r holl blant yn gyson

A4 Monitro effeithiolrwydd yr addysgu a'r dysgu yn fwy manwl

A5 Sefydlu rôl strategol y pwyllgor rheoli ymhellach

A6 Datblygu'r ardal ddysgu allanol

**Beth sy'n digwydd nesaf?**

Bydd y lleoliad yn llunio cynllun gweithredu sy'n dangos sut y bydd yn mynd i'r afael â'r argymhellion. Bydd Estyn yn monitro cynnydd y lleoliad.

## Prif ganfyddiadau

| Cwestiwn Allweddol 1: Pa mor dda yw'r deilliannau? | Digonol |
|---|---|

**Safonau: Digonol**

Mae ystod medrau'r plant pan fyddant yn dechrau yn y lleoliad yn amrywio'n fawr. Mae'r mwyafrif o'r plant yn gwrando'n dda yn ystod amser cylch a gweithgareddau grwpiau bach. Mae ychydig o'r plant sy'n rhugl yn y Gymraeg yn arddangos sgiliau llafar o safon dda iawn gan ddefnyddio iaith gywir a geirfa addas wrth drafod eu gwaith. Mae'r rhan fwyaf o'r plant sy'n ddysgwyr Cymraeg yn deall cyfarchion, cyfarwyddiadau a chwestiynau ond prin iawn yw'r ymatebion a gynigir ar lafar. Nid yw gafael llawer o'r plant hyn ar batrymau Cymraeg syml a geirfa sylfaenol yn ddigon sicr i'w cynorthwyo. Mae'r rhan fwyaf o'r plant yn gwybod llawer o ganeuon a hwiangerddi ac yn eu canu'n frwdfrydig. Maent yn dangos diddordeb mewn llyfrau ac yn dal llyfrau'n gywir. Mae'r rhan fwyaf yn adnabod eu henwau mewn print gyda llawer yn adnabod rhai llythrennau sylfaenol o'r wyddor. Maent yn datblygu medrau marcio priodol gydag ychydig yn ysgrifennu eu henwau gyda chywirdeb rhesymol.

Mae bron pob un o'r plant yn adrodd rhifau i ddeg fel grŵp yn gywir. Gyda chymorth, mae'r mwyafrif yn cyfrif gwrthrychau i fyny at dri gydag ychydig o blant yn cyfrif rhifau mwy yn gywir. Mae'r mwyafrif yn deall ystyr rhai termau mathemategol, megis mawr a bach, mewn sefyllfaoedd ymarferol. Maent yn didoli a chyfateb patrymau gwahanol, megis streipiau a dotiau, yn gywir. Er hyn, mae gwybodaeth llawer o'r plant am siapiau dau ddimensiwn a defnydd o arian yn llai datblygedig. Gyda chymorth, mae'r mwyafrif o'r plant yn defnyddio medrau TGCh sylfaenol i recordio enwau gwrthrychau ac i greu patrwm syml ar y sgrin. At ei gilydd, nid yw medrau TGCh y plant wedi datblygu ddigon.

Mae'r rhan fwyaf o'r plant yn gwneud defnydd da o'u medrau creadigol wrth brintio, arlunio a pheintio. Maent yn trin a defnyddio offer bach, megis brwshys paent a siswrn, gyda rheolaeth dda. Mae'r mwyafrif o'r plant yn gwneud defnydd priodol o'u medrau ymchwilio sylfaenol wrth adeiladu gyda blociau mawr. Mae ychydig o blant yn defnyddio eu medrau datrys problemau i gwblhau jig-sos a gemau bwrdd yn hyderus. At ei gilydd, nid yw medrau ymchwilio a datrys problemau'r plant, yn arbennig y plant mwy abl, wedi'u hymestyn ddigon.

**Lles: Da**

Mae plant yn ymgartrefu'n dda yn y lleoliad ar ddechrau sesiwn y bore ac yn chwarae'n hapus gyda'r offer a ddarperir ar eu cyfer. Maent yn ymgyfarwyddo'n gyflym â threfniadau'r sesiwn. Mae gan y mwyafrif o'r plant agwedd gadarnhaol tuag at ddysgu ac maent yn ymddwyn yn dda. Maent yn cydweithio'n hwylus gyda phlant eraill ac yn barod i rannu offer a theganau. Mae lefelau presenoldeb yn gyffredinol dda.

Mae gan y mwyafrif o'r plant ymwybyddiaeth gynyddol o bwysigrwydd ymarfer y corff a bwyta'n iach. Mae llawer o blant yn medru cymryd cyfrifoldeb am eu hylendid eu hunain ac yn deall yr angen i olchi eu dwylo yn arbennig cyn bwyta. Mae amser snac yn gyfnod cymdeithasol gyda'r plant yn sgwrsio'n dawel gyda'r staff ac yn bwyta'n daclus.

Mae llawer o blant yn dod yn gynyddol hyderus wrth ymgymryd â'u gweithgareddau a phrofiadau newydd. Mae'r mwyafrif yn canolbwyntio am gyfnodau priodol ac yn hyderus i ofyn am gymorth os oes angen. Mae'r rhan fwyaf yn barod i gymryd cyfrifoldeb megis tacluso wedi gweithgareddau a chymryd rôl helpwr y dydd.

| **Cwestiwn Allweddol 2: Pa mor dda yw'r ddarpariaeth?** | **Digonol** |
|---|---|

**Profiadau dysgu: Digonol**

Mae'r staff yn darparu ystod o brofiadau diddorol ar draws y rhan fwyaf o'r meysydd dysgu. Mae'r cwricwlwm wedi'i gynllunio o fewn cylch o themâu sy'n gweddu i ystod oed a lefel datblygiad y plant. Mae'r staff yn croesawu syniadau'r plant ar gyfer gweithgareddau ychwanegol.

Mae'r cynllunio dyddiol yn darparu cyfleoedd addas i'r plant ddefnyddio eu medrau llythrennedd a rhifedd. Maent yn cynnwys cyfleoedd i'r plant wrando ar storïau, edrych ar lyfrau a chanu caneuon a rhigymau. Mae rhai cyfleoedd i'r plant gyfrif a thrafod rhifau yn ystod gweithgareddau grŵp, amser cylch ac yn eu chwarae. Fodd bynnag, mae'r cyfleoedd i'r plant ddatblygu ystod briodol o fedrau TGCh yn annigonol. At ei gilydd, nid yw'r cynllunio yn sicrhau bod medrau'r plant yn datblygu'n systematig ar draws y meysydd dysgu.

Mae'r cynllunio ar gyfer gweithgareddau dan arweiniad y staff yn nodi'r medrau i'w datblygu yn glir ac yn amlinellu'r gweithgareddau ar gyfer grwpiau o blant. Er hyn, nid yw'r cynllunio bob amser yn sicrhau bod plant o bob gallu yn derbyn her briodol. Er enghraifft, nid yw medrau dysgu'r plant mwy abl yn cael eu hymestyn yn gyson.

Mae profiadau gwerthfawr yn datblygu medrau creadigol y plant yn llwyddiannus. Mae sylw addas i ddatblygu medrau trin offer bach y plant, megis pensil, siswrn a brws paent, mewn tasgau amrywiol. Er bod rhai cyfleoedd cynhyrchiol i'r plant ddatblygu eu medrau ymchwiliol, megis sesiynau coginio a phlannu blodau, nid oes digon o sylw i ymestyn y medrau hyn.

Mae'r staff yn datblygu ymwybyddiaeth y plant o draddodiadau a dathliadau Cymru yn effeithiol drwy weithgareddau megis dathlu Dydd Gŵyl Dewi a Dydd Santes Dwynwen. Mae peth defnydd o ymweliadau, megis â'r siopau lleol a'r Amgueddfa Wlân, i ehangu gwybodaeth y plant o'u cymuned. Yn achlysurol, mae defnydd o gyfraniad rhai ymwelwyr o'r gymuned, megis gwraig y post, i sgwrsio gyda'r plant.

**Addysgu: Digonol**

Mae gan y staff wybodaeth sicr am ddatblygiad plant a'r Cyfnod Sylfaen. Maent yn gwneud defnydd addas o ystod o ddulliau addysgu ac adnoddau priodol i lywio'r dysgu. Ar y cyfan, mae cydbwysedd priodol rhwng gweithgareddau sydd yn cael eu harwain gan y staff a gweithgareddau y mae'r plant yn eu dewis eu hunain.
Mae'r staff yn llwyddo i greu amgylchedd dysgu hapus a chadarnhaol. Maent yn ymuno'n frwdfrydig yn y gweithgareddau ac yn gwneud defnydd adeiladol o glod ac anogaeth i gefnogi ymdrechion y plant. Fodd bynnag, nid yw'r addysgu bob amser yn rhoi digon o sylw i ymestyn medrau'r plant megis eu medrau llafar. Mae cynllunio a threfniadaeth sesiynau chwarae annibynnol y plant yn llai datblygedig. O ganlyniad, mae ychydig o blant yn colli diddordeb yn y gweithgareddau.

Mae’r staff yn adnabod y plant yn dda ac yn medru trafod eu datblygiad yn fanwl. Maent yn asesu eu cynnydd yn briodol drwy arsylwi, gan nodi agweddau arwyddocaol. Mae’r nodiadau yn darparu cofnod trefnus o gynnydd plant ar draws y meysydd dysgu. Mae defnydd o’r asesiadau ar gyfer cynllunio’r camau nesaf yn y dysgu yn ei ddyddiau cynnar.

Mae rhieni a gofalwyr yn derbyn gwybodaeth berthnasol am ddatblygiad eu plant trwy drafodaethau anffurfiol, adroddiadau ysgrifenedig manwl a thrwy dderbyn enghreifftiau o waith eu plant. Mae cyfleoedd adeiladol i’r rhieni a’r plant newydd i ymweld â’r cylch cyn cychwyn ac i’r holl rieni i fynychu boreau agored i drafod datblygiad eu plant ymhellach.

**Gofal, cymorth ac arweiniad: Da**

Mae’r lleoliad yn gweithredu fel cymuned ofalgar. Mae arferion dyddiol yn hyrwyddo lles plant yn effeithiol. Mae trefniadau priodol mewn lle i annog plant i fwyta’n iach ac ymarfer y corff. Er enghraifft, mae’r staff yn gwneud defnydd adeiladol o’r sesiynau byrbryd i ddatblygu ymwybyddiaeth y plant o bwysigrwydd bwyta’n iach.

Mae’r staff yn hybu gwerthoedd pwysig, megis bod yn gwrtais ac ystyried eraill, yn gyson. Mae’r cyfle i gynnig gweddi cyn ymadael, dathliadau Nadolig a mynychu dathliadau’r cynhaeaf gyda’r ysgol leol yn cyfrannu’n briodol at eu datblygiad ysbrydol a chymdeithasol. Yn ychwanegol, mae cymryd rhan mewn gweithgareddau i gasglu arian at achosion da yn hyrwyddo gwybodaeth y plant o bwysigrwydd gofalu am eraill.

Mae cyfleoedd addas i ddatblygu ymwybyddiaeth y plant o ddiwylliannau gwahanol. Mae’r plant yn dathlu’r Flwyddyn Newydd Tsieineaidd a gŵyl Divali drwy ystod o brofiadau diddorol yn cynnwys gweithgareddau celf a chrefft.

Er nad oes plant ag anghenion dysgu ychwanegol yn y lleoliad ar hyn o bryd, mae’r staff yn ymwybodol o’r gweithdrefnau angenrheidiol ac o ffynnonellau cymorth megis gwasanaethau cefnogi medrau lleferydd ac iaith plant.

Mae’r cyfleoedd i dyfu llysiau a blodau ac ymgymryd â gweithgareddau ailgylchu yn hyrwyddo ymwybyddiaeth y plant o bwysigrwydd gofalu am yr amgylchedd yn briodol. Er enghraifft, maent yn rhoi unrhyw wastraff bwyd yn y bocs ailgylchu adeg amser snac.

Mae trefniadau’r lleoliad ar gyfer diogelu plant yn bodloni’r gofynion ac nid ydynt yn destun pryder.

**Yr amgylchedd dysgu: Da**

Mae'r lleoliad yn gymuned gynhwysol sy'n trin pob plentyn yn gyfartal. Mae’r staff yn ystyried ac yn gwerthfawrogi cefndiroedd amrywiol y plant ac yn ymateb yn adeiladol.

Mae gan y lleoliad ddigon o staff profiadol i fodloni gofynion y Cyfnod Sylfaen. Ar y cyfan, mae digon o adnoddau i gefnogi'r dysgu ar draws y rhan fwyaf o’r meysydd dysgu. Mae adnoddau ar gyfer datblygu TGCh yn fwy prin.

Mae'r adeilad yn cynnig cyfleusterau o ansawdd digonol. Mae'r staff yn gwneud defnydd llawn o'r lle prin sydd ar gael trwy drefnu ardaloedd o weithgareddau gwahanol o amgylch yr ystafell. Mae'r arddangosfeydd o samplau o waith y plant yn cyfrannu at greu amgylchedd lliwgar. Caiff yr ystafell ei defnyddio gan nifer o fudiadau eraill. O ganlyniad, mae'n rhaid i'r staff osod a chlirio offer ac adnoddau ar ddechrau ac ar ddiwedd pob sesiwn. Mae'r neuadd yn darparu cyfleusterau priodol ar gyfer ystod o weithgareddau. Nid yw'r ardal fechan awyr agored, fodd bynnag, wedi cael ei datblygu ddigon i ddarparu ardal ddysgu effeithiol i'r plant. Mae'r adeilad a'r safle yn lân a diogel.

| **Cwestiwn Allweddol 3: Pa mor dda yw'r arweinyddiaeth a'r rheolaeth?** | **Digonol** |
|---|---|

**Arweinyddiaeth: Digonol**

Mae'r arweinydd yn dangos ymrwymiad cadarn i'w rôl. Mae'r holl staff yn rhannu gwerthoedd cytûn o ran hybu datblygiad a lles plant. Mae ganddynt ddealltwriaeth glir o'u cyfrifoldebau ac maent yn dîm gweithgar.

Mae trefn glir i'r sesiynau dyddiol. Mae'r sgyrsiau briffio dyddiol yn sicrhau bod y staff yn deall prif ffocws y gweithgareddau i'w cyflwyno. Mae defnydd priodol o gyfarfodydd staff i drafod agweddau ar y ddarpariaeth a materion cyffredinol. Er hyn, nid oes digon o ystyriaeth i gynnydd a safonau cyflawniad plant i ddylanwadu'n gyson ar yr addysgu a'r dysgu.

Mae'r pwyllgor rheoli yn gefnogol i waith y lleoliad. Yn dilyn adolygiad diweddar o drefniadaeth y pwyllgor, mae'r aelodau yn cyfarfod yn fwy rheolaidd a chyfrifoldebau'r swyddogion yn fwy eglur. Mae'r newidiadau yn gamau adeiladol sy'n cael eu croesawu gan yr arweinydd a'r swyddogion. Er hyn, mae'n rhy gynnar i arfarnu effaith y datblygiadau ar waith y lleoliad.

Mae polisïau addas yn cael eu gweithredu'n briodol. Mae trefniadau arfarnu gwaith y staff yn cwrdd â'r gofynion cyfredol. Mae'r trafodaethau yn llwyddo i hybu dealltwriaeth y staff o'u rôl a'u cyfrifoldebau.

Mae'r lleoliad yn rhoi ystyriaeth addas i flaenoriaethau cenedlaethol a lleol, gan gynnwys gweithredu'r Cyfnod Sylfaen, datblygu medrau Cymraeg y plant a hyrwyddo byw yn iach.

**Gwella ansawdd: Digonol**

Mae gan y staff ymwybyddiaeth briodol o brif gryfderau'r lleoliad ac maent yn rhoi ystyriaeth deg i farn rhieni a gofalwyr, ac asiantaethau cefnogi. Mae defnydd addas o'r fframwaith gynllunio i adnabod rhai medrau sydd angen eu datblygu ac i gofnodi ymateb y plant. Er hyn, nid oes digon o ddefnydd o hunan arfarnu i fesur effeithiolrwydd agweddau ar y ddarpariaeth megis yr addysgu a'r dysgu.

Mae'r adroddiad hunan arfarnu yn cynnig darlun cytbwys o'r ddarpariaeth. Mae defnydd pwrpasol o'r wybodaeth a gasglwyd i greu cynllun gwella defnyddiol. Mae'r cynllun yn cynnwys targedau addas, megis datblygu medrau cyfathrebu a rhifedd y plant, yn gosod amserlen ac yn amlinellu'r adnoddau angenrheidiol. Mae gweithredu'r cynllun, fodd bynnag, yn ei ddyddiau cynnar.

Mae’r staff yn ymateb yn gadarnhaol i gyngor.  Gydag arweiniad athrawes gyswllt yr awdurdod lleol, mae camau adeiladol yn datblygu sy’n hyrwyddo gwaith grŵp i gwrdd ag ystod anghenion dysgu’r plant.  Nid yw’r trefniadau wedi eu gwreiddio’n llawn i hyrwyddo cyflawniadau’r plant yn gyson.

Mae sylw i’r argymhellion a nodwyd yn adroddiad yr arolygiad diwethaf wedi bod yn araf.  Mae agweddau ar ddatblygu medrau Cymraeg y plant, eu medrau arbrofi a gwneud penderfyniadau, a’r angen i ddatblygu strategaethau grwpio effeithiol yn parhau yn feysydd i dderbyn sylw pellach.

**Gweithio mewn partneriaeth:  Da**

Mae perthynas dda rhwng y lleoliad a’r rhieni a gofalwyr.  Mae’r lleoliad yn darparu gwybodaeth gyson iddynt ar lafar a thrwy gylchlythyron, dogfennau a llyfrynnau pwrpasol.

Mae cysylltiadau gwerthfawr gyda’r ysgol gynradd leol.  Mae hyn yn cynnwys defnydd o ardal wyllt yr ysgol ar gyfer ymweliadau gan y plant i arsylwi ar fyd natur drwy’r tymhorau.  Mae’r staff a’r plant yn elwa o’r cyfleoedd i fynychu mabolgampau a chyngherddau gyda’r ysgol.  Mae cysylltiadau pontio priodol gyda’r ysgol leol ac ysgolion eraill yn yr ardal.  Mae hyn yn hyrwyddo trosglwyddiad esmwyth i’r plant i gam nesaf eu haddysg.  Mae partneriaeth ddefnyddiol gyda’r Cylch Ti a Fi sydd yn cwrdd yn y neuadd yn wythnosol.

Mae gan y lleoliad gysylltiadau buddiol gyda’r gymuned.  Er enghraifft, mae defnydd llwyddiannus o’r cysylltiadau gyda siopau a mudiadau lleol i gefnogi'r gweithgareddau i godi arian i’r lleoliad ac ar gyfer achosion da.

Mae’r bartneriaeth adeiladol gydag athrawes gyswllt yr awdurdod addysg a swyddog Mudiad Meithrin yn cyfrannu’n gynhyrchiol at waith y lleoliad drwy’r cyngor a’r arweiniad cadarn a ddarperir.

**Rheoli adnoddau:  Digonol**

Mae’r lleoliad wedi’i staffio’n briodol.  At ei gilydd, mae defnydd addas o amser a phrofiad unigolion, ac o adnoddau, i arwain a chefnogi profiadau dysgu’r plant.

Mae’r staff yn mynychu cyrsiau addas sy’n datblygu eu dealltwriaeth o addysg a gofal plant yn briodol.  Yn dilyn hyfforddiant diweddar er enghraifft, maent wedi dechrau cyflwyno rhai syniadau newydd ar hybu medrau iaith y plant.  Mae defnydd priodol o rai ymweliadau â lleoliadau eraill i rannu profiadau ac i arsylwi arfer dda.

Mae gan yr arweinydd a’r pwyllgor rheoli ddealltwriaeth glir o’r gyllideb a chaiff penderfyniadau gwariant eu blaenoriaethu’n briodol yn ôl anghenion y lleoliad.  Mae defnydd effeithiol o fentrau codi arian ac o grantiau er mwyn ychwanegu at yr adnoddau.  O ystyried ansawdd y ddarpariaeth a safonau cyflawniad y plant, mae’r lleoliad yn cynnig gwerth digonol am arian.

## Atodiad 1

**Adroddiad boddhad rhanddeiliaid**

**Ymatebion i'r holiadur i rieni**

Derbyniwyd llai na 10 ymateb.  Ni chaiff unrhyw ddata ei ddangos.

## Atodiad 2

**Yr arolygydd cofnodol**

| | |
|---|---|
| Dorothy Morris | Arolygydd Cofnodol |

**Copïau o'r adroddiad**

Mae copïau o'r adroddiad hwn ar gael yn y lleoliad ac oddi ar wefan Estyn (www.estyn.llyw.cymru)

## Rhestr termau

| | |
|---|---|
| **AGGCC** | Mae Arolygiaeth Gofal a Gwasanaethau Cymdeithasol Cymru (AGGCC) yn isadran o'r Adran Gwasanaethau Cyhoeddus a Pherfformiad yn Llywodraeth Cymru. |
| **Athro ymgynghorol awdurdod lleol** | Mae'r athrawon hyn yn darparu cymorth, arweiniad a hyfforddiant cyson i leoliadau nas cynhelir sy'n darparu addysg i blant tair a phedair oed. |
| **Y Cyfnod Sylfaen** | Menter gan Llywodraeth Cymru sy'n anelu at ddarparu cwricwlwm cytbwys ac amrywiol i ddiwallu anghenion datblygiadol gwahanol plant ifanc 3 i 7 mlwydd oed |
| **Cymdeithas Darparwyr Cyn Ysgol Cymru (WPPA)** | Cymdeithas wirfoddol annibynnol sy'n darparu gofal plant ac addysg cyn ysgol yn y gymuned. |
| **Cymdeithas Genedlaethol Meithrinfeydd Dydd (NDNA)** | Mae'r gymdeithas hon yn anelu at wella datblygiad ac addysg plant yn eu blynyddoedd cynnar, trwy ddarparu gwasanaethau cymorth i aelodau. |
| **Cymdeithas Broffesiynol Gofal Plant a'r Blynyddoedd Cynnar (PACEY)** | Mae hon yn gymdeithas ag aelodaeth broffesiynol sy'n gweithio gyda gwarchodwyr plant cofrestredig i sicrhau gofal plant, chwarae, dysgu a chymorth teulu o ansawdd uchel yn lleol yn y cartref. |
| **Meysydd Dysgu** | Y rhain yw saith maes cwricwlwm y Cyfnod Sylfaen mewn lleoliadau cyfrwng Saesneg. (Nid yw'n ofynnol i leoliadau cyfrwng Cymraeg addysgu datblygu'r Gymraeg am mai dyma yw iaith y lleoliad yn barod.) Mae'r Meysydd Dysgu fel a ganlyn:<br>• datblygiad personol a chymdeithasol, lles ac amrywiaeth ddiwylliannol<br>• medrau iaith, llythrennedd a chyfathrebu<br>• datblygiad mathemategol<br>• datblygu'r Gymraeg<br>• gwybodaeth a dealltwriaeth o'r byd<br>• datblygiad corfforol<br>• datblygiad creadigol |
| **Partneriaeth Datblygu'r Blynyddoedd Cynnar a Gofal Plant (PDBCGP)** | Mae'r bartneriaeth awdurdod lleol hon yn cymeradwyo lleoliadau fel darparwyr addysg. Mae ganddi'r grym hefyd i dynnu cyllid yn ôl o leoliadau nad ydynt yn cydymffurfio ag amodau cofrestru'r bartneriaeth. |

| | |
|---|---|
| **Proffil asesu datblygiad plant y Cyfnod Sylfaen (PADP)** | Proffil asesu wrth fynd i mewn i'r Cyfnod Sylfaen; gofyniad statudol mewn ysgolion o Fedi 2011 ac mewn lleoliadau o Fedi 2012. |
| **Mudiad Meithrin** | Mudiad gwirfoddol, sy'n anelu at roi'r cyfle i bob plentyn ifanc yng Nghymru i elwa o wasanaethau a phrofiadau'r blynyddoedd cynnar trwy gyfrwng y Gymraeg. |